



ADRODDIADAU ARHOLWYR

**LLWYBRAU MYNEDIAD
CYMRAEG**

HAF 2016

LLWYBRAU MYNEDIAD

CYMRAEG

Haf 2016

Prif Safonwr: Rhian M Ellis

Diolch eto i athrawon ledled y wlad am waith hynod o werthfawr gyda'r ymgeiswyr ar y lefel hon. Mae datblygu hyder a hunan werth ein dysgwyr ar y lefel hon yn ogystal ag ennill iddynt gymhwyster mor bwysig wrth eu paratoi ar gyfer llwybrau eu dyfodol.

Mae gweinyddiaeth y gwaith yn gwella'n barhaus, ond deil ychydig o bwyntiau yr apeliwn arnoch i dalu sylw iddynt:

- Mae angen cyflwyno'r gwaith fesul **uned** ac nid fesul ymgeisydd.
- Mae angen tystiolaeth o **safoni mewnol** gan sicrhau bod rhywun arall yn bwrw golwg ar y gwaith.
- Mae angen **enw'r ymgeisydd, rhif arholiad yr ymgeisydd a rhif y ganolfan ar bob** darn o waith.
- Mae angen labelu cryno ddisgiau / ffon gof yn glir a nodi **enwau'r ymgeiswyr fesul trac, yn ogystal ag enw'r ysgol a rhif yr ysgol.**

Diolch yn fawr iawn am bob cydweithrediad yn hyn o beth.

Uned 6360 – Trafod Profiadau a Theimladau

Mae'n bleser gwranddo ar ymgeiswyr yn siarad mewn iaith naturiol a chyfoethog gan drafod testunau o wir ddiddordeb a phrofiad iddynt. Yn yr achosion hyn y llwydda'r ymgeiswyr yn arbennig o dda. Cafwyd enghreifftiau o athrawon yn arwain mewn ffordd grefftus a naturiol wrth sgwrsio gan sicrhau bod ymgeiswyr yn cyrraedd y safon uchaf posib trwy ymateb i gwestiynu agored. Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymgeiswyr yn sgwrsio yn naturiol ac yn defnyddio'r cywair priodol. Fodd bynnag, yn anffodus, cafwyd ambell enghraifft o ddisgyblion yn darllen sgript eto eleni. FE DDYLID OSGOI SGRIPTIO AR BOB CYFRI' gan fod ymgeiswyr yn dioddef. Bellach, mae anfon recordiad o waith y dysgwyr ar ffon gof yn opsiwn, yn hytrach na chryno ddisg.

Uned 6361 – Trawsieithu

Mae athrawon bellach wedi ymgyfarwyddo gyda gofynion y dasg hon ar y cyfan, ond erys peth ansicrwydd o ran gofynion M3. Ar y lefel hon, disgwylir ymateb mewn dyfnder i wybodaeth a gyflwynir mewn dyfnder, yn yr un modd ag y mae ymateb i ffilm neu raglen deledu neu ymateb i ryddiaith ar lefel M3 yn gofyn am ddyfnder. Cofiwch fod angen deunydd ymestynnol ar gyfer M3, a cheir enghreifftiau o hyn ar wefan CBAC. Cofiwch nad tasg cyfieithu mohoni. Gofynnir yn garedig i ganolfannau amgáu'r deunydd darllen Saesneg a ddefnyddiwyd.

Uned 6362 – Ymateb i ffilm / Rhaglen Deledu

Llwydda'r ymgeiswyr i drafod rhaglen/ffilm cwbl addas o fewn eu profiad mewn dyfnder, a'r goreuon ar M3 yn gallu cyfeirio at dechnegau ffilm. Nodwch os gwelwch yn dda ei fod yn hanfodol trafod TECHNEGAW ffilm/rhaglen deledu er mwyn cyrraedd M3. Eto, mae holi cynnil, pwrpasol gan athrawon yn angenrheidiol er mwyn sicrhau potensial ymgeiswyr. Fel y dasg unigol ar lafar – Trafod profiadau a theimpladau **mae angen OSGOI SGRIPTIO o ran y dasg hon ar bob cyfri' gan na ellir gwobrwyo ymgeiswyr am ddarllen sgrïpt.**

Uned 6363 – Ymateb i Ryddiaith

Mae hon yn dasg boblogaidd iawn a llwydda'r ymgeiswyr i ymateb yn ddiddorol i ddeunydd addas o fewn eu profiad a'u diddordeb. Cofier bod angen bwrw pob un o'r meini prawf, a bod gwaith M3 yn gofyn am gryn dipyn o ysgrifennu estynedig. Mae angen i chi sicrhau eich bod yn nodi enw'r nofel neu ddrama neu stori ac ati yr ymatebir iddynt.

Uned 6364 – Ysgrifennu Stori

Cafwyd straeon o safon uchel gan ymgeiswyr a oedd wedi eu paratoi'n fanwl trwy gynllunio mewn dyfnder. Gan y goreuon gwelwyd ymdrech i ddisgrifio a chreu nodweddion arddull a naws, a oedd at ei gilydd yn creu straeon diddorol, gwreiddiol a bywiog.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk